




Taliadau'r GIG a'r Cynllun Incwm Isel

- Triniaeth ddeintyddol y GIG
- Profion golwg, sbectol a lensys cyffwrdd
- Costau teithio i'r ysbyty am driniaeth y GIG



Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi arweiniad ar drefniadau'r GIG o ran codi tâl yng Nghymru yn unig.

Mae'r rhan fwyaf o driniaethau'r GIG ar gael yn rhad ac am ddim, er y gall tâl gael ei godi am rai pethau. Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthyfych pa hawliau sydd gennych. Mae'n dweud hefyd pa help y gallech ei gael gyda chostau'r canlynol os ydych ar incwm isel:

- Triniaeth ddeintyddol y GIG;
- Profion golwg;
- Sbectol a lensys cyffwrdd;
- Costau teithio angenrheidiol i'r ysbyty ac oddi yno am driniaeth y GIG o dan ofal ymgynghorydd ysbyty.

SUT I DDEFNYDDIO'R LLYFRYN HWN

Gallwch edrych yn gyflym ar y Cipolwg sy'n dechrau ar dudalen 6 i weld a oes gennych hawl i gael triniaeth am ddim.

I gael arweiniad manylach, ewch i dudalennau 4-5 y llyfryn a dod o hyd i'r grŵp yr ydych yn perthyn orau iddo, yna ewch i rif y dudalen sy'n cael ei ddangos (er enghraifft, os ydych yn 60 oed a throsodd, ewch i dudalen 11).

Ar ôl darllen am y grŵp sydd fwyaf perthnasol i chi, **edrychwch** i weld a oes unrhyw un o'r grwpiau eraill yn berthnasol hefyd (efallai eich bod yn rhan o fwy nag un grŵp).

Er enghraifft, efallai eich bod:

- Yn 60 oed a throsodd a hefyd ar incwm isel; neu
- Yn feichiog a hefyd â chyflwr meddygol penodol.

Os yw hyn yn berthnasol i chi, rhaid i chi sicrhau eich bod yn darllen am y ddau grŵp.

Pan fyddwch wedi dod o hyd i'r grŵp neu i'r grwpiau yr ydych yn perthyn iddo/iddynt a pha help sydd ar gael i chi, ewch i dudalen 31. Yno, mae'n dweud wrthyfych sut i gael help gyda chostau iechyd y GIG pan ewch am driniaeth.

Cyflwyniad

AD-DALU COSTAU. Mae gwybodaeth am ad-daliadau ar gael yn y llyfryn hefyd – darllenwch dudalen 35.

COSB. Os cewch eich dal yn ceisio help gyda'ch costau iechyd yn anghyfiawn, byddwch yn wynebu cosb ariannol ac efallai y cewch eich erlyn o dan bwerau a gyflwynwyd gan Ddeddf Iechyd 1999.

CYFRADDAU PRESENNOL. Caiff cyfraddau taliadau presennol y GIG a gwerth talebau optegol eu rhestru yn www.healthcosts.wales.nhs.uk

CYNGOR CYFFREDINOL YN UNIG SYDD YN Y FFURFLEN HON AC NI DDYLID EI HYSTYRIED FEL DATGANIAD CYFLAWN AC AWDURDODOL O'R GYFRAITH.

Mynegai

CIPOLWG

Presgripsiynau	6
Triniaeth Ddeintyddol	7
Profion Golwg	8
Talebau Optegol y GIG	9
Costau Teithio	10

GRWPIAU OED

Pobl Ifanc sy'n Byw yng Nghymru	11
Pobl 60 oed a throsodd	11

GRWPIAU INCWM

Pobl sy'n cael budd-daliadau:

Cymhorthdal Incwm	12
Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn	12
Lwfans Ceisio Gwaith	13
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth	13

Budd-daliadau eraill:

Pobl sy'n cael credydau treth	14
Pobl sydd ar incwm isel	17

GRWPIAU ERAILL

Pobl sy'n byw yng Nghymru ond sydd â Meddyg yn Lloegr	21
Pobl sydd â chyflwr meddygol penodedig	22
Merched beichiog a'r rhai sydd wedi cael babi yn ystod y 12 mis blaenorol	23
Pobl sydd wedi'u cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall	24
Pobl sy'n gorfod cael lensys cymhleth	24

Mynegai

Pobl â glawcoma neu diabetes	24
Pobl sydd wedi colli neu ddifrodi eu sbectol	24
Pobl sydd â nam ar eu clyw	25
Pobl sy'n byw mewn cartref gofal preswyl neu gartref nysio	26
Pobl sy'n cael cymorth gan awdurdod lleol ar ôl gadael gofal	26
Cleifion mewdol y GIG	27
Cleifion Gwasanaeth Deintyddol Ysbytai	27
Cleifion Adrannau Llygaid Ysbytai	27
Pobl sy'n gorfod teithio i'r ysbyty am driniaeth y GIG	28
Pensiynwyr rhyfel	29
Pobl o dramor	29

CYNGOR PELLACH

Beth y mae'n rhaid i chi ei wneud i gael help gyda'ch costau iechyd	31
Gwybodaeth am brofion gwirio'r broses o ddsbarthu meddyginiaeth, y gwasanaeth neu'r driniaeth a ddarperir (gwirio cymhwyster) a chosbau	34
Sut i hawlio ad-daliad	35
Canllaw gwirio cyflym i brofi cymhwyster pobl sydd â hawl i gael:	
Triniaeth ddeintyddol y GIG yn rhad ac am ddim	38
Gwasanaethau Optegol y GIG	40

BLE I GAEL GWYBODAETH BELLACH	44
--------------------------------------	-----------

PRESGRIPSIYNAU AM DDIM

Cewch bresgripsiynau'r GIG a weinyddir yng Nghymru am ddim os ydych yn cyflawni un o'r amodau canlynol adeg gweinyddu'r presgripsiwn:

- Mae gennych ffurflen bresgripsiwn o Gymru;
- Mae gennych ffurflen bresgripsiwn gyfatebol o Loegr (FP10) a cherdyn hawliad dilys (gweler tudalen 21) neu;
- Mae gennych ffurflen bresgripsiwn gyfatebol (e.e. o Loegr neu'r Alban) ac yn bodloni un o'r categorïau eithrio a restrir ar y cefn;
- Nid ydych yn preswylïo yng Nghymru fel arfer ond rydych yn meddu ar dystysgrif eithrio feddygol ddilys ar gyfer y rhestr gyfredol o gyflyrau meddygol a ragnodir.

Bydd preswylwyr yng Nghymru sydd â Thystysgrif Eithrio Ddilys am gyflwr meddygol penodol yn cael eu presgripsiwn am ddim, ble bynnag yn y DU y'i cyhoeddir neu y'i gweinyddir.

Gweler tudalen 21 am ragor o wybodaeth.

Mae'r canlynol ar gael yn rhad ac am ddim hefyd:

- Meddyginiaethau sy'n cael eu rhoi mewn ysbyty neu mewn Canolfan Cerdded i Mewn;
- Dulliau atal cenhedlu sydd ar gael ar bresgripsiwn, meddyginiaeth a weinyddir gan feddyg teulu yn bersonol;
- Meddyginiaeth sy'n cael ei darparu gan ysbyty er mwyn trin heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (STI).

TRINIAETH DDEINTYDDOL Y GIG YN RHAD AC AM DDIM

Cewch archwiliadau deintyddol yn rhad ac am ddim os ydych:

- O dan 25 oed ar ddiwrnod eich archwiliad yng Nghymru; neu
- Yn 60 oed a throsodd ar ddiwrnod eich archwiliad yng Nghymru.

Cipolwg

Cewch driniaeth ddeintyddol y GIG yn rhad ac am ddim os ydych:

- O dan 18 oed;
- Yn 18 oed ac mewn addysg amser llawn;
- Yn feichiog neu wedi cael babi o fewn 12 mis cyn i'r driniaeth ddechrau.
- Yn glaf mewnol y GIG a'r driniaeth yn cael ei chynnal gan un o ddeintyddion yr ysbyty;
- Yn glaf allanol Gwasanaeth Deintyddol Ysbytai'r GIG;*
- Yn glaf Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol y GIG.*

**Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu rhywfaint am ddannedd gosod a phontydd.*

Neu, pan fo'r driniaeth yn dechrau neu phan fyddwch yn gorfod talu:

- Rydych chi, neu eich partner, yn cael: Credyd Cynhwysol, Cymhorthdal Incwm, neu Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm neu Gredyd Gwarant y Credyd Pensiwn.
- Os oes gennych hawl i dystysgrif eithrio credyd treth ddilys y GIG neu fod eich enw ar dystysgrif o'r fath;
- Os yw'ch enw ar dystysgrif HC2W ddilys.

Cymorth rhannol: os yw eich enw ar dystysgrif HC3W, efallai y cewch rywfaint o help gyda chost triniaeth ddeintyddol y GIG.

Pensiynwyr rhyfel – darllenwch dudalen 29.

Bydd angen talu am unrhyw driniaeth sydd ei hangen arnoch ar ôl yr archwiliad, oni bai eich bod yn gymwys i gael triniaeth yn rhad ac am ddim.

PROFION GOLWGW Y GIG YN RHAD AC AM DDIM

Cewch brofion golwg yn rhad ac am ddim os ydych:

- O dan 16 oed;
- Mewn addysg amser llawn a naill ai'n 16, yn 17 neu'n 18 oed;
- Yn 60 oed a throsodd;
- Yn dioddef o glawcoma;
- Yn 40 oed a throsodd ac yn rhiant, yn frawd, yn chwaer, yn fab neu'n ferch i rywun sy'n dioddef o glawcoma, neu
- Wedi'ch cyngori gan ophthalmolegydd eich bod mewn perygl o ddatblygu glawcoma;
- Yn dioddef o diabetes;
- Wedi'ch cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall;
- Angen lensys cymhleth;
- Yn gorfod cael cynnal eich profion golwg yn adran llygaid yr ysbyty fel rhan o'r broses o reoli eich cyflwr llygaid;
- Yn cael, neu yn cael eich cynnwys yn nyfarniad rhywun sy'n cael Credyd Cynhwysol, Cymhorthdal Incwm, neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm, lwfans cyflogaeth a chymorth yn seiliedig ar incwm, neu Gredyd gwarant y Credyd Pensiwn;
- Â hawl i dystysgrif eithrio ddilys y GIG rhag credyd treth neu fod eich enw ar dystysgrif o'r fath;
- Wedi'ch enwi ar dystysgrif HC2W ddilys.

Cymorth rhannol: os yw eich enw ar dystysgrif HC3W ddilys, efallai y cewch rywfaint o help gyda chost profion golwg preifat.

Pensiynwyr rhyfel – darllenwch dudalen 29.

TALEBAU'R GIG TUAG AT GOST SBECTOL NEU LENSYS CYFFWRDD

Cewch dalebau os ydych:

- O dan 16 oed;
- Mewn addysg llawn amser ac yn 16, 17 neu'n 18 oed;
- Angen lensys cymhleth - darllenwch dudalen 24;
- Yn cael neu'n cael eich cynnwys yn nyfarniad rhywun sy'n cael Credyd Cynhwysol, Cymhorthdal Incwm, neu Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, lwfans cyflogaeth a chymorth yn Seiliedig ar Incwm, neu gredyd gwarant y Credyd Pensiwn;
- Â hawl i dystysgrif eithrio ddilys credyd treth y GIG neu fod eich enw ar dystysgrif o'r fath;
- Wedi'ch enwi ar dystysgrif HC2W ddilys;

Cymorth rhannol: os yw eich enw ar dystysgrif HC3W ddilys, efallai y cewch rywfaint o help.

NODER: Os yw eich sbectol neu eich lensys cyffwrdd yn costio mwy na gwerth y daleb, bydd yn rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth.

Pensiynwyr rhyfel – darllenwch dudalen 29.

TALEBAU'R GIG AR GYFER TRIN NEU NEWID SBECTOL NEU LENSYS CYFFWRDD

Cewch dalebau os ydych:

- O dan 16 oed;
Os ydych chi'n 16 oed a throsodd, mae amodau'n berthnasol – darllenwch dudalen 24.

COSTAU TEITHIO'R GIG

Gallwch gael help gyda chostau teithio angenrheidiol i gael triniaeth yn y GIG o dan ofal ymgynghorydd, os ydych:

- Wedi'ch cynnwys yn yr asesiad lle mae rhywun yn cael:
 - Ategiad Incwm
 - Nid yw Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm (Budd-dal Analluogrwydd, Credyd Cynhwysol, na Lwfans Byw i'r Anabl) yn cyfrif gan nad ydynt yn gysylltiedig ag incwm
 - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm
 - Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn
- Â hawl i dystysgrif eithrio ddilys credyd treth y GIG neu â'ch enw ar dystysgrif o'r fath;
- Â'ch enw ar dystysgrif HC2W ddilys (yn cynnwys teithio gan eich plant dibynnol);
- Yn bensiynwr rhyfel a bod y driniaeth ysbyty ar gyfer anabledd cydnabyddedig.

Plant sydd o dan 16 oed a'r rhai sy'n 16-18 oed – darllenwch dudalen 28.

Cymorth rhannol: os yw eich enw ar dystysgrif HC3W ddilys, efallai y cewch rywffaint o help.

Grwpiau Oed

POBL IFANC SY'N BYW YNG NGHYMRU

Cewch y canlynol yn rhad ac am ddim:

- Archwiliadau deintyddol y GIG a gynhelir yng Nghymru cyn eich pen-blwydd yn 25 oed. Codir tâl priodol am unrhyw driniaeth o ganlyniad i'r archwiliad am ddim;
- Profion golwg y GIG o dan 16 oed neu yn 16, 17 neu 18 oed ac yn cael addysg amser llawn.



POBL SY'N 60 OED A THROSODD YNG NGHYMRU

Cewch y canlynol yn rhad ac am ddim:

- Profion golwg y GIG;
- Archwiliadau deintyddol y GIG a gynhelir yng Nghymru.
Bydd angen talu am unrhyw driniaeth sydd ei hangen arnoch ar ôl yr archwiliad.

Os oes arnoch angen help gyda chostau iechyd eraill, edrychwch i weld a ydych yn rhan o unrhyw un o'r grwpiau eraill sy'n cael eu rhestru ar dudalennau 4-5.

Grwpiau Incwm

POBL SY’N CAEL Y BUDD-DALIADAU CANLYNOL:

Efallai y byddwch chi neu eich partner yn cael y budd-daliad neu’r credyd.

CYMHORTHDAL INCWM

Byddwch chi a’ch partner yn cael y canlynol yn rhad ac am ddim:

- Triniaeth ddeintyddol y GIG;
- Profion golwg y GIG.

Hefyd, cewch:

- Daleb tuag at gost sbectol neu lensys cyffwrdd;
- Ad-daliad o’r costau teithio angenrheidiol a delir i fynd i’r ysbyty ac oddi yno er mwyn i chi, eich partner neu unrhyw blant dibynnol a phobl ifanc o dan 20 oed dderbyn triniaeth.

Os ydych yn aros i’ch cais am Gymhorthdal Incwm gael ei bennu a bod arnoch angen cymorth brys gydag unrhyw gostau ieched – ewch i dudalen 17.

CREDYD GWARANT Y CREDYD PENSIWN (PCGC)

Os ydych yn cael Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn, darllenwch yr wybodaeth ar gyfer pobl sy’n cael Cymhorthdal Incwm.

Os ydych o dan 60 oed a bod eich partner yn cael Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn, dylech hefyd ddarllen yr wybodaeth am Gymhorthdal Incwm.

PWYSIG: Os mai dim ond credyd cynilion y Credyd Pensiwn ar ei ben ei hun yr ydych yn ei gael, nid oes gennych hawl i gael help gyda chostau ieched. Os ydych yn gorfod talu costau ieched, edrychwch i weld a ydych yn rhan o unrhyw un o’r grwpiau eraill sy’n cael eu rhestru ar dudalennau 4-5. Neu efallai y cewch help os ydych ar incwm isel – ewch i dudalen 17.

Grwpiau Incwm

LWFANS CEISIO GWAITH YN SEILIEDIG AR INCWM – JSA (IB)

Mae gennych chi a'ch partner hawl i'r un pethau â phobl sy'n cael Cymhorthdal Incwm. Os ydych yn cael Credyd Cynhwysol, darllenwch yr wybodaeth ar gyfer pobl sy'n cael Cymhorthdal Incwm.

LWFANS CEISIO GWAITH YN SEILIEDIG AR GYFRANIADAU – JSA-JSA(C)

PWYSIG: Ar ei ben ei hun, nid yw JSA (C) yn rhoi hawl i chi gael help gyda chostau iechyd. Os ydych yn gorfod talu costau iechyd, edrychwch i weld a ydych yn rhan o unrhyw rai o'r grwpiau eraill a restrir ar dudalennau 4-5. Neu, efallai y cewch help os ydych ar incwm isel - darllenwch dudalen 17.

Os nad ydych yn siwr pa fath o JSA a gewch, holwch yn eich Canolfan Byd Gwaith.

Os ydych yn aros i benderfyniad gael ei wneud ynghylch eich cais JSA a bod arnoch angen cymorth brys gydag unrhyw gostau iechyd, darllenwch dudalen 17.

LWFANS CYFLOGAETH A CHYMORTH YN SEILIEDIG AR GYFRANIADAU – ESA(C)

PWYSIG: Ar ei ben ei hun, nid yw ESA(C) yn rhoi'r hawl i chi gael help gyda chostau iechyd. Os oes rhaid i chi dalu costau iechyd, gwiriwch i weld a ydych mewn unrhyw rai o'r grwpiau a restrir ar dudalennau 4-5. Efallai y bydd modd i chi gael help os ydych ar incwm isel - darllenwch dudalennau 17-20.

LWFANS CYFLOGAETH A CHYMORTH YN SEILIEDIG AR INCWM – ESA(IR)

Mae gennych chi, eich partner ac unrhyw blant a phobl ifanc dibynnol o dan 20 oed a gynhwysir mewn hawliad ESA(1R) hawl i gael yr un pethau â phobl sy'n cael cymhorthdal incwm – darllenwch dudalen 12.

Grwpiau Incwm

CREDYD CYNHWYSOL

Mae gennych chi a'ch partner hawl i'r un pethau â'r bobl sy'n cael Cymhorthdal Incwm. Os ydych yn cael Credyd Cynhwysol, darllenwch yr wybodaeth ar gyfer pobl sy'n cael Cymhorthdal Incwm.

BUDD-DALIADAU ERAILL

Dim ond Cymhorthdal Incwm, Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn, ESA(IR) neu JSA (IB) sy'n arwain yn awtomatig at help gyda chostau iechyd.

Nid yw budd-daliadau eraill megis Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Byw i'r Anabl yn cyfrif gan nad ydynt yn ddibynnol ar incwm. Os ydych yn gorfod talu costau iechyd, edrychwch i weld a ydych yn rhan o unrhyw rai o'r grwpiau eraill a restrir ar dudalennau 4-5. Neu efallai y cewch help os ydych ar incwm isel - ewch i dudalen 17.

CREDYDAU TRETH

- Credyd Treth Gwaith (WTC);
 - Credyd Treth Plant (CTC).
1. Os ydych yn bodloni'r amodau cymhwyso (darllenwch baragraff 3), bydd tystysgrif eithrio credyd treth y GIG yn cael ei hanfon atoch gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHSBSA). Bydd y dystysgrif yn cael ei hanfon atoch yn awtomatig, nid oes yn rhaid i chi wneud cais amdani – ond darllenwch baragraff 8.
 2. Os byddwch yn bodloni'r amodau cymhwyso, cewch y canlynol yn rhad ac am ddim:
 - Triniaeth ddeintyddol y GIG;
 - Profion golwg y GIG.

Grwpiau Incwm

Hefyd, cewch:

- Dalebau tuag at gost sbectol neu lensys cyffwrdd;
 - Ad-daliad o'r costau teithio angenrheidiol a delir i fynd i'r ysbyty ac oddi yno er mwyn i chi, eich partner neu unrhyw blant dibynnol a phobl ifanc o dan 20 oed dderbyn triniaeth gan y GIG. Hefyd, cewch ad-daliad o'r costau teithio os bydd angen i unrhyw un o'r plant fynd i'r ysbyty. (Mae ganddynt hawl eisoes i'r cymorth arall.)
3. Yr amodau cymhwyso ar gyfer cael help gyda chostau iechyd yw (A) + naill ai (B1) neu (B2) neu (B3):
- (A) lle bo incwm eich teulu ar gyfer credydau treth yn £15,276** neu'n llai (mae'r ffigur hwn ar y nodyn sy'n dyfarnu eich credyd treth) a bod un o'r canlynol yn berthnasol:
- (B1) rydych yn gweithio a bod gennych blant = rydych yn cael WTC a CTC, neu
- (B2) rydych yn gweithio ac yn anabl = rydych yn cael WTC gydag elfen ar gyfer anabledd – edrychwch ar y nodyn sy'n dyfarnu eich credyd treth, neu
- (B3) nid ydych yn gymwys i gael WTC ond rydych yn cael CTC. Gall hyn fod gan nad ydych yn gweithio 16 awr yr wythnos, neu nad yw eich incwm yn cyfrif fel enillion, e.e gan eich bod yn fyfyrwr sy'n astudio i fod yn nyrs.
- ** Mae'r terfyn £15,276 yn gymwys o 6 Ebrill 2016. Os ydych yn darllen hwn ar ôl 5 Ebrill 2017, dylech edrych a yw'r ffigur hwn wedi newid.*
4. Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) yn dosbarthu hysbysiadau credyd treth sy'n hysbysu teuluoedd y gallent fod â hawl i help o fath arall. Dim ond HMRC a all ddweud a ydych yn gymwys i gael WTC neu CTC ai peidio.
5. Os nad ydych yn siw'r am gyfanswm eich incwm at ddibenion credyd treth, gallwch ffonio Llinell Gymorth HMRC: 0345 300 3900 (Cymru, Lloegr a'r Alban).

Grwpiau Incwm

Os ydych wedi gwneud hawliad am gredyd treth ond heb gael hysbysiad o'ch dyfarniad eto, dylech gysylltu â'r HMRC ar y rhif uchod (nid yr NHSBSA).

Ar gyfer pobl sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd, rhif y Llinell Gymorth yw 0345 300 3909 (Cymru, Lloegr a'r Alban).

TYSTYSGRIFAU EITHRIO CREDYD TRETH Y GIG

6. Mae Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHSBSA) - corff y GIG a leolir yn Newcastle - yn dosbarthu tystysgrifau i bobl ledled y DU ar ran adrannau ieched Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nid oes yn rhaid i chi wneud cais ar wahân am dystysgrif.

(Byddwch yn barod i aros hyd at chwe wythnos am eich tystysgrif ar ôl i chi gael nodyn i'ch hysbysu am y dyfarniad. Darllenwch baragraff 8.)

7. Bydd HMRC yn anfon gwybodaeth i'r NHSBSA bob mis am y teuluoedd sydd â hawl i gael tystysgrif.

8. Ni all yr NHSBSA anfon tystysgrif eithrio atoch nes y bydd yn derbyn yr wybodaeth gan HMRC. **Gall hyn fod hyd at chwe wythnos ar ôl i'ch credyd treth gael ei ddyfarnu.** Os ydych yn bodloni'r amodau am gymorth a restrir ym mharagraff 3, gallwch lofnodi ffurflenni triniaeth y GIG i ddweud nad oes rhaid i chi dalu gan eich bod yn cael credydau treth. Defnyddiwch eich hysbysiad dyfarniad fel tystiolaeth o'ch hawliad nes i'ch tystysgrif gyrraedd.

Os ydych yn parhau'n ansicr a oes gennych hawl i gael Tystysgrif Eithrio Credyd Treth y GIG ai peidio, ffoniwch yr NHSBSA ar 0300 330 1347, a gwnewch yn siw'r bod eich hysbysiad Dyfarnu Credyd Treth wrth law er mwyn i chi allu dweud wrth yr NHSBSA beth sydd arno.

Grwpiau Incwm

OS COLLWCH EICH TYSTYSGRIF EITHRIO CREDYD TRETH

9. Rhwch wybod i'r NHSBSA drwy ysgrifennu at:

Exemption Issue Office, Bridge House, 152 Pilgrim Street, Newcastle Upon Tyne, NE1 6SN, a rhwch wybod iddynt beth ddigwyddodd. Byddant yn anfon copi newydd atoch.

OS NAD YDYCH YN GYMWYS I GAEL HELP DRWY EITHRIAD CREDYD TRETH

10. Mae'r eithriad credyd treth ar gyfer pobl sy'n gweithio neu sy'n anabl neu sydd â phlant.
11. Os nad ydych yn gymwys i gael help trwy gredydau treth, efallai y gallwch gael help gyda Chynllun Incwm Isel y GIG - gweler isod.
12. Ffoniwch Linell Gymorth HMRC ar 0345 300 3900 am gyngor ar y mathau eraill o help a all fod ar gael diolch i gredydau treth. Darllenwch baragraffau 4 a 5.

CYNLLUN INCWM ISEL Y GIG

Nid yw'r Cynllun Incwm Isel yn rhoi hawl i chi gael triniaeth y GIG. Fodd bynnag, os ydych wedi'ch derbyn i gael triniaeth y GIG a'ch bod yn gorfod talu am unrhyw rai o'r eitemau sy'n cael eu rhestru ar dudalen 3 y llyfryn hwn, efallai y gall Cynllun Incwm Isel y GIG eich helpu gyda'r gost. Os oes gennych gyfalaf sy'n fwy na'r terfynau cyfalaf sy'n cael eu nodi ar ffurflen gais HC1W sef £16,000 (neu £24,000 i bobl sy'n byw mewn cartref gofal yn barhaol), ni allwch wneud cais am unrhyw help trwy gyfrwng y cynllun hwn.

Os oes gennych bartner, caiff ei eiddo, ei gynilion ac unrhyw arian arall sy'n perthyn iddo ef neu hi eu cyfrif gyda'ch arian chi.

Partner yw person rydych yn byw gydag ef/hi fel rhan o bâr o'r un rhyw neu'r rhyw arall, p'un a ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

Ni chaiff plant eu cynnwys yn Asesiad Cynllun Incwm Isel y GIG.

Bydd angen i chi hawlio Credyd Treth Plant gan HMRC. I wybod rhagor

Grwpiau Incwm

am Gredydau Treth ewch i www.hmrc.gov.uk/taxcredits neu ffoniwch 0345 300 3900.

Os hoffech wybod a all y cynllun eich helpu, archebwch ffurflen gais HC1W (cais am help gyda chostau iechyd) neu gallwch ffonio'r llinell archebu cyhoeddiadau ar 0345 603 1108.

Cewch lenwi ffurflen gais fer arbennig, HC1(SC)W os yw'r canlynol yn berthnasol i chi:

- Rydych yn byw mewn cartref gofal preswyl neu gartref nyrsio yn barhaol a bod yr awdurdod lleol yn eich helpu gyda'r gost; neu
- Mae'r awdurdod lleol yn rhoi cymorth i chi gan eich bod yn 16 neu'n 17 oed a'ch bod wedi gadael gofal yr awdurdod lleol yn ddiweddar.

Gofynnwch i reolwr eich cartref/awdurdod lleol/gweithiwr gofal i archebu ffurflen gais HC1(SC)W. Fel arall, defnyddiwch y ffurflen arferol, sef HC1W.

Os ydych yn 16 oed a throsodd, cewch wneud eich cais eich hun ar ffurflen HC1W, ond nid oes yn rhaid i chi wneud hyn fel unigolyn sy'n ddibynnol ar rywun sy'n cael budd-dal cymwys neu gredyd sy'n cael ei restru ar dudalennau 12-17.



Os oes yn rhaid i blentyn dibynnol o dan 16 oed fynd i'r ysbyty i gael triniaeth gan y GIG, gallwch wneud cais am gymorth gyda'u costau teithio. Seilir unrhyw gymorth ar incwm y rhiant, a dim incwm y plentyn.

FLlenwch HC1W neu HC1(SC)W ac anfonwch y ffurflen yn yr amlen a ddaw gyda hi. Mae'r ffurflen hawlio yn dweud wrthyfych beth i'w wneud a gall ofyn i chi anfon tystiolaeth o'ch incwm.

Grwpiau Incwm

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am sut i lenwi'r ffurflenni hyn, neu am beth ddylech ei anfon gyda hwy, ffoniwch yr NHSBSA ar 0300 330 1343, neu ysgrifennwch at NHS Business Services Authority, Bridge House, 152 Pilgrim Street, Newcastle Upon Tyne NE1 6SN.

Ar ôl i chi anfon y ffurflen gais, bydd yr NHSBSA yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych i gyfrifo faint o help a allech ei gael tuag at eich costau iechyd.

TYSTYSGRIFAU CYNLLUN INCWM ISEL Y GIG

Os ydych yn gymwys i gael help, cewch dystysgrif HC2W y GIG am gymorth llawn neu dystysgrif HC3W y GIG am gymorth rhannol gyda chostau iechyd. Bydd y dystysgrif yn dweud wrthyfch pwy sy'n gymwys i gael y gymorth ac am ba hyd y bydd yn parhau.

Os bydd eich amgylchiadau'n newid er gwell, nid oes angen i chi roi gwybod am hynny. Os bydd eich amgylchiadau'n newid er gwaeth, dylech wneud hawliad arall.

Anfonir at bobl sy'n ceisio lloches ac a gefnogir gan yr Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo (BIA), gan gynnwys y rhai ar gymorth cynhaliaeth yn unig, dystysgrif taliadau GIG (HC2W) am gymorth llawn gyda chostau iechyd gyda'u hawliadau cyntaf am gymorth – darllener hefyd dudalennau 29-30.

PWYSIG: Nid yw dystysgrif HC2W yn rhoi'r hawl i chi gael triniaeth y GIG. Mae'n rhoi hawl i chi gael cymorth llawn gyda chostau iechyd os ydych wedi'ch derbyn am driniaeth y GIG.

Grwpiau Incwm

Os oes angen cymorth arnoch ar frys gydag unrhyw gostau iechyd cyn i Gymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Credyd Cynhwysol, Credyd Pensiwn neu greydau treth gael eu dyfarnu, gwnewch gais ar wahân ar ffurflen HC1W. Peidiwch ag aros i'ch cais am fudd-dal neu greddyd gael ei bennu. Ond os oes gennych nodyn yn hysbysu bod credyd treth wedi'i ddyfarnu, darllenwch dudalennau 12-17 er mwyn gweld a allwch gael help heb wneud hawliad incwm isel.

Os nad ydych eisiau gohirio eich triniaeth GIG neu drin/newid eich sbectol (darllenwch dudalen 24 yn gyntaf) neu fod arnoch angen triniaeth ddeintyddol y GIG ar frys, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu a hawlio ad-daliad yn hwyrach.

Os ydych eisiau hawlio ad-daliad am unrhyw gost iechyd – darllenwch dudalennau 35-36.

Grwpiau Eraill



POBL SY'N BYW YNG NGHYMRU OND SYDD Â MEDDYG YN LLOEGR

CARDIAU HAWLIO

- Os ydych yn byw yng Nghymru ac wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu yn Lloegr bydd y presgripsiynau a gewch yn rhai Lloegr (FP10) ac nid yn rhai Cymru (WP10).
- Bydd arnoch angen Cerdyn Hawlio i brofi'ch bod yn gymwys i gael presgripsiynau am ddim.
- Bydd angen i chi ddod â'ch Cerdyn Hawlio gyda chi i fferyllfa yng Nghymru a'i ddangos i'r fferylllydd/rhodddwr y presgripsiwn bob tro yr ydych yn rhoi presgripsiwn iddo i wneud yn siŵr nad yw'n codi tâl arnoch am eich meddyginiaeth.

Dylai'ch cerdyn hawlio gael ei anfon atoch yn awtomatig gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes, ond os credwch y dylech gael cerdyn a chithau heb gael un, cysylltwch â'r GIG Cymru Partneriaeth Cydwasaethau, Tŷ Mamhilad, Ystad Parc Mamhilad, Pont-y-pŵl, NP4 0YP
Ffôn: 01495 332000.

Grwpiau Eraill

POBL Â CHYFLWR MEDDYGOL PENODEDIG

Os ydych yn dioddef o unrhyw rai o'r cyflyrau isod neu wedi cael diagnosis i'r perwyl hwnnw, gallwch wneud cais am Dystysgrif Eithrio Meddygol.

Mae presgripsiynau am ddim i bawb yng Nghymru (gweler tudalen 6), ond ond os digwydd fod angen i chi gael triniaeth rywle arall yn y DU bydd Tystysgrif Eithrio Meddygol yn caniatáu i chi gael presgripsiynau am ddim o fferyllfa arall yn y DU.

Gallwch gael Tystysgrif Eithrio Meddygol os oes gennych un o'r canlynol:

- Ffistwla parhaol (er enghraifft, caecostomi, colostomi, laryngostomi neu ileostomi) sy'n gwneud gorchuddion llawfeddygol neu gyfarpar yn ofynnol yn barhaol;
- Ffurfiau ar hypoadrenaledd (er enghraifft, Clefyd Addison, y mae therapi amnewid penodol yn hanfodol ar ei gyfer);
- Diabetes insipidus a mathau eraill ar hypobitwïdedd;
- Diabetes mellitus ac eithrio lle bo'r driniaeth yn seiliedig ar ddeiet yn unig;
- Hypoparathyroidedd;
- Myasthenia gravis;
- Mycsoedema;
- Canser, effeithiau Canser neu effeithiau triniaeth am Ganser;
- Epilepsi sy'n ei gwneud yn ofynnol i barhau â therapi gwrth-ddirdynnol; neu
- Os oes gennych anabledd corfforol parhaus sy'n golygu na allwch fynd allan heb gymorth person arall.

Rydym yn gofyn i feddygon eich cyngori am bresgripsiynau am ddim. Ond mater i chi yw darganfod a oes gennych hawl neu beidio.

Grwpiau Eraill

Dim ond y cyflyrau a restrir sy'n cyfrif. Os nad ydych yn siw'r am enw'ch cyflwr, mynnwch air â'ch meddyg.

I wneud cais am Dystysgrif Eithrio Meddygol gofynnwch i'ch meddyg am ffurflen FP92W (Cymru). Mae'r ffurflen yn dweud wrthych beth i'w wneud.

Caiff eich tystysgrif eithrio ei phostio atoch.

Fel arfer mae Tystysgrifau Eithrio Meddygol yn para am bum mlynedd ac wedyn rhaid eu hadnewyddu.

Efallai y cewch nodyn i'ch atgoffa bod angen adnewyddu'ch tystysgrif, ond eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau ei bod yn cael ei hadnewyddu.

MERCHED BEICHIOG A'R RHAI SYDD WEDI CAEL BABI YN YSTOD Y 12 MIS BLAENOROL

Os ydych yn feichiog neu os cawsoch fabi yn y 12 mis diwethaf, mae gennych hawl i gael triniaeth ddeintyddol am ddim gan y GIG ar yr amod eich bod yn dechrau ar y driniaeth pan fyddwch yn feichiog neu yn y 12 mis ar ôl rhoi genedigaeth.

I hawlio'ch triniaeth ddeintyddol am ddim bydd arnoch angen tystysgrif neu gerdyn eithrio dilys am resymau mamolaeth a roddwyd i chi gan y Bwrdd Iechyd Lleol. I wneud cais am eich cerdyn eithrio am resymau mamolaeth, gofynnwch i'ch meddyg, eich bydwraig neu eich ymwelydd iechyd am Ffurflen FW8W. Bydd eich meddyg, eich bydwraig neu eich ymwelydd iechyd yn llofnodi'r ffurflen i ategu'ch datganiad.

Bydd eich cerdyn yn para tan 12 mis ar ôl y dyddiad geni disgwylidig. Os caiff eich babi ei eni yn gynnar, gallwch barhau i ddefnyddio'ch cerdyn eithrio nes iddo ddod i ben. Os caiff eich babi ei eni'n gynnar, gallwch wneud cais am estyniad. Os gwnewch gais ar ôl i'ch babi gael ei eni, bydd eich cerdyn eithrio'n para am 12 mis ar ôl genedigaeth eich plentyn.

Grwpiau Eraill

POBL SYDD WEDI'U COFRESTRU'N DDALL NEU'N RHANNOL DDALL

Cewch brofion golwg y GIG yn rhad ac am ddim. Os oes arnoch angen help gyda chostau iechyd eraill, edrychwch i weld a ydych yn rhan o un o'r grwpiau eraill sy'n cael eu rhestru ar dudalennau 4-5.

POBL SY'N GORFOD CAEL LENSYS CYMHLETH

Cewch brofion golwg y GIG yn rhad ac am ddim os ydych yn gwisgo sbectol cymhleth neu gryf gydag o leiaf un lens sydd:

- â phŵer mewn unrhyw feridian o + neu – 10 dioptre neu fwy; neu
- yn lens ddeuffocol a reolir gan brism.

Hefyd, cewch daleb tuag at gost sbectol.

POBL Â GLAWCOMA NEU DIABETES

Cewch brofion golwg yn rhad ac am ddim os ydych:

- Yn dioddef o glawcoma; neu
- Yn 40 a throsodd ac yn rhiant, yn frawd, yn chwaer, yn fab neu'n ferch i rywun sy'n dioddef o glawcoma; neu
- Wedi'ch cyngori gan ophthalmolegydd eich bod mewn perygl o ddatblygu glawcoma; neu
- Yn dioddef o diabetes.

POBL SYDD WEDI COLLI NEU DDIFRODI EU SBECTOL NEU EU LENSYS CYFFWRDD

Os ydych o dan 16 oed, cewch daleb tuag at y gost o drin neu newid eich sbectol/lensys cyffwrdd.

Grwpiau Eraill

Os ydych yn 16 oed a throsodd, efallai fod gennych hawl i gael taleb tuag at y gost o drin neu newid eich sbectol/lensys cyffwrdd os bydd eich Bwrdd Iechyd Lleol yn cytuno:

- Bod y golled neu'r difrod wedi digwydd o ganlyniad i salwch; a
- Na allwch gael unrhyw help trwy gyfrwng gwarant, yswiriant neu wasanaeth ar ôl prynu; a
- Y byddech yn gymwys i gael taleb y GIG am sbectol neu lensys cyffwrdd – darllenwch dudalen 9.

Os oes amheuaeth, cysylltwch â'ch Bwrdd Iechyd Lleol.

Nid yw hyn yn gymwys i lensys cyffwrdd y gellir eu taflu.

POBL SYDD Â NAM AR EU CLYW

Cewch gymhorthion clywed y GIG ar fenthyg yn rhad ac am ddim. Caiff y cymhorthion eu darparu gyda batris (a batris sbâr) ac fe gânt eu gosod a'u cynnal a'u cadw yn rhad ac am ddim.

Os hoffech wybod mwy, holwch eich meddyg teulu.



Grwpiau Eraill

POBL SY'N BYW MEWN CARTREF GOFAL PRESWYL NEU GARTREF NYRSIO

Nid yw'r ffaith eich bod yn byw mewn cartref gofal preswyl neu gartref nyrsio yn rhoi'r hawl i chi gael help yn awtomatig.

- Os ydych o dan 60 oed ac yn cael Cymhorthdal Incwm – neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm darllenwch dudalen 12.
- Os ydych yn 60 oed a throsodd ac yn cael credyd gwarant y Credyd Pensiwn - darllenwch dudalen 12.
- Os yw'r awdurdod lleol yn eich helpu gyda rhan o'r gost neu'r gost gyfan – darllenwch dudalennau 17-20.
- Fel arall, edrychwch i weld a allwch gael cymorth trwy gyfrwng Cynllun Incwm Isel y GIG – darllenwch dudalen 17.

POBL SY'N CAEL CYMORTH GAN AWDURDOD LLEOL AR ÔL GADAEL GOFAL – Y RHAI SY'N GADAEL GOFAL

Os ydych yn 16 neu'n 17 oed ac yn cael cymorth gan awdurdod lleol gan eich bod wedi gadael gofal yr awdurdod lleol yn ddiweddar, mae gennych hawl i gael help llawn gyda chostau iechyd trwy gyfrwng Cynllun Incwm Isel y GIG – darllenwch dudalen 17.

Os nad ydych yn cael cymorth gan awdurdod lleol ac nad ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, efallai y byddwch yn dal i allu cael help trwy gyfrwng y Cynllun Incwm Isel. Hefyd, edrychwch a ydych yn perthyn i unrhyw un o'r grwpiau sydd ar dudalen 4 neu 5.

Grwpiau Eraill

CLEIFION MEWNOL Y GIG

Cewch y canlynol yn rhad ac am ddim:

- Holl driniaethau'r GIG, gan gynnwys triniaeth ddeintyddol yn ogystal â meddyginiaethau;
- Sbectol neu lensys cyffwrdd a ddarperir trwy adran llygaid yr ysbyty (ond rhaid i chi ddewis y ffrâm rataf sydd ar gael). Os byddwch yn dewis ffrâm ddrutach, (o ganlyniad i resymau nad ydynt yn rhai meddygol), bydd yn rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth;

Os byddwch yn gofyn i ddeintydd neu optegydd ymweld â chi yn yr ysbyty, bydd yn rhaid i chi dalu'r gost yn y ffordd arferol, fel petaech yn derbyn triniaeth yn eu practis. Darllenwch dudalennau 4 a 5 i weld a ydych yn rhan o grŵp a all gael triniaeth ddeintyddol neu brawf golwg y GIG yn rhad ac am ddim neu dalebau tuag at gost sbectol.

CLEIFION DEINTYDDOL YSBYTAI'R GIG

Mae triniaeth ddeintyddol y GIG a gynhelir yn yr ysbyty yn rhad ac am ddim, ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu rhywfaint am ddannedd gosod a phontydd oni bai fod gennych hawl i gael triniaeth ddeintyddol y GIG yn rhad ac am ddim.

ADRAN LLYGAID YSBYTAI'R GIG

Profion golwg: Os bydd eich ymgynghorydd yn eich cyfeirio at optometrydd am brawf llygaid fel rhan o'r gwaith o reoli eich cyflwr llygaid, tra byddwch yn dal i fod yn glaf yn adran llygaid yr ysbyty, bydd y prawf golwg hwnnw yn rhad ac am ddim. Os bydd eich ymgynghorydd yn penderfynu bod yn rhaid i chi newid eich sbectol neu eich lensys cyffwrdd oherwydd rhesymau clinigol, dim ond am y pâr cyntaf y bydd yn rhaid i chi dalu. Hefyd, efallai y cewch help gyda chost y pâr cyntaf os ydych yn rhan o un o'r grwpiau sydd â hawl i gael taleb – darllenwch dudalen 9.

Grwpiau Eraill

POBL SY'N GORFOD TEITHIO I'R YSBYTY AM DRINIAETH Y GIG

Efallai fod gennych hawl i gael help gyda chostau teithio angenrheidiol:

- Os ydych yn mynychu ysbyty, neu rywle arall, i gael triniaeth y GIG o dan ofal ymgynghorydd.
- Os ydych yn defnyddio'r ffordd rataf o deithio y mae'n rhesymol i chi ei defnyddio.
- Os oes angen i rywun deithio gyda chi, ym marn yr ymgynghorydd, ychwanegir costau teithio'ch cydymaith at eich costau teithio chi a'ch incwm chi sy'n cyfrif.
- Os ydych yn cael budd-daliadau neu gredydau – darllenwch dudalen 12.
- Os ydych ar incwm isel - darllenwch dudalen 17.
- Os ydych yn 16 oed a throsodd ond o dan 20 oed ac yn cyfrif fel dibynnydd i rywun sy'n cael unrhyw rai o'r budd-daliadau/credydau ar dudalennau 12-17, gallwch gael help trwy'r budd-dal neu'r credyd hwnnw.
- Os ydych yn 16 oed a throsodd a heb fod yn ddibynnydd i rywun sy'n cael budd-daliadau neu gredydau, gallwch wneud eich hawliad eich hun, hyd yn oes os ydych yn byw gyda'ch rhieni – darllenwch dudalennau 17-20.
- Os mai plentyn sydd o dan 16 oed yw'r claf, incwm ei rieni sy'n cyfrif. Os bydd rhywun arall yn mynd â'r claf i'r ysbyty, incwm y rhieni sy'n dal i gyfrif.

Os nad ydych yn siŵr gyda pha gostau teithio y mae help ar gael i chi, holwch yr ysbyty cyn teithio.

Grwpiau Eraill

TRINIAETH Y GIG DRAMOR

Hwyrach y gallwch gael help gyda chostau teithio o'ch cartref i'r derfynfa reilffordd ryngwladol, y porthladd neu'r maes awyr lle y byddwch yn gadael Prydain Fawr. Mae'r trefniadau yr un fath â phe baech yn teithio o'ch cartref i ysbyty am driniaeth – darllenwch “Pobl sy'n gorfod teithio i'r ysbyty am driniaeth y GIG” ar dudalen 28.

Waeth beth yw eich incwm, cewch help gyda'r gost o deithio'n ôl o'r fan lle y gadawsoch Brydain Fawr i'r fan lle y cewch eich triniaeth ond rhaid cytuno ar eich dull o deithio (e.e. awyr neu reilffordd) a'r gost cyn i chi deithio. Dylech holi'r sawl sy'n trefnu'r driniaeth. Os yw cael cydymaith yn angenrheidiol yn feddygol, dylech ofyn am help gyda'u costau teithio hwythau.

PENSIYNWYR RHYFEL

Efallai y cewch arian yn ôl am driniaeth ddeintyddol, costau teithio i'r ysbyty, profion golwg, sbectol neu lensys cyffwrdd os yw'r driniaeth, neu'r rheswm dros deithio, ar gyfer eich anabledd pensynadwy. Ysgrifennwch at: The Treatment Group, Veterans Agency, Norcross, Blackpool FY53WP. Mae amlenni wedi'u rhagdalau ar gael mewn Swyddfeydd Post.

POBL O DRAMOR

Gall pobl sy'n dod o dramor ac sy'n cael eu derbyn fel preswylwyr arferol yn y DU (gan gynnwys y rhai sy'n cael caniatâd i aros yn y DU a phobl sy'n cael eu derbyn i weithio neu astudio yn y DU) ac sy'n cael eu derbyn am driniaeth y GIG, geisio help gyda chostau iechyd yn yr un modd â phreswylwyr eraill.

Os cewch eich derbyn am driniaeth y GIG, gwiriwch i weld a ydych yn perthyn i un o'r grwpiau a restrir ar dudalennau 4-5. Fel arall, gallwch hawlio o dan gynllun incwm isel y GIG – darllenwch dudalennau 17-20.

Bydd pobl sy'n ceisio lloches ac a gefnogir gan yr Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo (BIA), gan gynnwys y rhai ar gymorth cynhaliaeth yn unig, dystysgrif taliadau'r GIG (HC2W) am gymorth llawn gydd chostau iechyd eu taliadau cymorth cyntaf.

Grwpiau Eraill

Mae angen i bobl sy'n ceisio lloches, nad ydynt yn perthyn i un o'r grwpiau a restrir ar dudalennau 4-5 ac na chefnogir mohonynt gan BIA neu geiswyr lloches aflwyddiannus wneud cais o dan Gynllun Incwm Isel y GIG – darllenwch dudalennau 17-20.

SUT I GAEL HELP GyDA CHOSTAU IECHYD

TRINIAETH DDEINTYDDOL Y GIG:

Dywedwch wrth y deintydd eich bod eisiau triniaeth y GIG pan fyddwch yn gwneud apwyntiad. Llofnodwch y ffurflen a roddir i chi pan fyddwch yn mynd i gael triniaeth. Os nad oes yn rhaid i chi dalu, rhwch groes yn y blwch priodol. Os oes gennych dystysgrif HC2W ddilys, nodwch rif y dystysgrif.

Os oes gennych dystysgrif HC3W ddilys, nodwch rif y dystysgrif **a'r** uchafswm a nodir ar y dystysgrif y cewch ei dalu. Byddwch yn talu naill ai'r hyn sy'n ymddangos ar y dystysgrif, yr union gost neu uchafswm y gost, pa bynnag yw'r lleiaf.

Os bydd eich amgylchiadau yn newid cyn y gofynnir i chi dalu, darllenwch dudalen 6 i weld a oes gennych hawl i gael triniaeth ddeintyddol y GIG yn rhad ac am ddim.

Gofynnir i chi ddangos tystiolaeth o'ch hawl i gael help gyda chostau deintyddol – darllenwch dudalen 38 am ragor o wybodaeth.

Pan fyddwch yn hawlio cymorth gyda chost eich triniaeth ddeintyddol o dan y GIG, rydych yn gyfrifol am wybod a oes gennych hawl ac am y datganiad a wnewch. Os nad ydych yn siŵr a oes gennych hawl i gael cymorth yna mae rhaid i chi dalu. Gallwch hawlio ad-daliad, gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw pob derbynneb (gweler tudalennau 35-36).

PROFION GOLWG

Os oes nam difrifol ar eich golwg/os ydych yn ddall neu â nam ar eich golwg/yn rhannol ddal, rhaid rhoi enw a chyfeiriad yr Awdurdod Lleol lle'r ydych wedi'ch cofrestru ar ffurflen GOS1W.

- Os oes gennych dystysgrif HC2W ddilys am help llawn, rhaid i chi ei dangos i'ch optegydd;
- Os oes nam difrifol ar eich golwg/os ydych yn ddall neu â nam ar eich golwg/yn rhannol ddall, rhaid i chi nodi enw a chyfeiriad yr Awdurdod Lleol yr ydych wedi cofrestru ag ef ar ffurflen GOS1W;

Cyngor Pellach

- Os ydych yn dioddef o diabetes neu glawcoma, neu os ydych wedi'ch cyngori eich bod mewn perygl o ddatblygu glawcoma gan offthalmolegydd, rhaid nodi enw a chyfeiriad eich meddyg ar y ffurflen GOS1W;
- Os ydych yn gorfod cael lensys cymhleth eisoes, dangoswch eich presgripsiwn diweddaraf i'r optegydd neu'r sbectol yr ydych yn eu gwisgo.

Bydd yr optegydd yn rhoi ffurflen GOS2W i chi yn dangos canlyniad eich prawf golwg.

Os oes gennych Dystysgrif HC3W ddilys, dangoswch hi i'r optegydd a gofynnwch a oes gennych hawl i gael unrhyw gymorth gyda chost prawf golwg preifat. Dylech wneud cais am y cymorth hwn ar ffurflen GOS5W.

TALEBAU'R GIG AR GYFER SBECTOL NEU LENSYS CYFFWRDD

- Ceir rhagor o wybodaeth am ddefnyddio talebau ar gefn eich ffurflen GOS2W.
- Gofynnwch am ffurflen talebau GOS3W pan fyddwch yn cael eich prawf golwg, neu pan fyddwch yn archebu eich sbectol neu eich lensys cyffwrdd os na wnaethoch ofyn am un yn gynharach, neu os oes gennych hawl i un yn awr. Nid oes gan bob cyflenwr dalebau GOS3W ac efallai y bydd yn rhaid i chi fynd yn ôl at y sawl a brofodd eich golwg er mwyn cael un. Llenwch ran 1 pan fyddwch yn archebu eich sbectol neu eich lensys cyffwrdd a dangoswch dystysgrif HC2W ddilys i'ch optegydd os oes gennych un.
- Os oes gennych dystysgrif HC3W ddilys, gallwch ofyn am ffurflen talebau GOS3W. Dangoswch eich HC3W i'r optegydd pan fyddwch yn archebu sbectol neu lensys cyffwrdd a gofynnwch a allwch gael unrhyw help gyda'r gost. Bydd gwerth eich taleb yn cael ei leihau yn ôl y cyfanswm sy'n cael ei ddangos ar eich HC3W.

Cyngor Pellach

- Mae ffurflen dalebau GOS3W yn ddilys am ddwy flynedd, ond dim ond os ydych yn parhau'n gymwys i gael taleb i brynu sbectol neu lensys cyffwrdd y gallwch ei defnyddio.

Os oes gennych dystysgrif HC2W neu HC3W ddilys, **rhaid** i chi ei dangos i'r optegydd pan fyddwch yn archebu eich sbectol neu eich lensys cyffwrdd. Bydd yr optegydd yn gofyn i chi lenwi a llofnodi GOS3W i nodi pam rydych yn gymwys i gael y daleb ac i gadarnhau eich bod wedi derbyn eich sbectol neu eich lensys cyffwrdd.

TALEBAU'R GIG I DRIN NEU NEWID SBECTOL NEU LENSYS CYFFWRDD

Gofynnwch i'ch optegydd am ffurflen GOS4W – mae'n dweud wrthy'ch beth i'w wneud.

TEITHIO I'R YSBYTY AC ODDI YNO AM DRINIAETH Y GIG DAN OFAL YMGYNGHORYDD

Os cewch eich atgyfeirio am driniaeth o dan ofal ymgynghorydd a'ch bod yn teithio i gael y driniaeth honno gallwch hawlio cymorth gyda chostau teithio am resymau incwm isel.

Pan ewch am driniaeth, dywedwch wrth yr ysbyty (neu'r man lle'r ydych yn cael eich trin) eich bod yn dymuno hawlio cost y daith yn ôl. Os oes gan y man lle'r ydych yn cael eich trin gyfleuster derbynnydd arian byddwch yn gallu hawlio'ch arian yn ôl yn ystod eich ymweliad. Gofynnir i chi ddangos prawf o'ch hawl, megis eich hysbysiad dyfarnu, eich tystysgrif eithrio credyd treth neu'ch HC2W.

Hefyd cadwch unrhyw docynnau neu dderbynebau fel prawf o'r gost.

Lle nad yw'r man lle'r ydych yn cael eich trin yn rhoi taliadau bydd angen i chi hawlio'ch treuliau gan ddefnyddio ffurflen HC5W(T). Mae'n dweud wrthy'ch beth i'w wneud. Darllenwch dudalennau 35-37.

GWIRIO HAWL I GAEL HELP GYDA CHOSTAU IECHYD, A'R GOSB

Os nad ydych yn talu taliad y GIG, neu os ydych yn defnyddio taleb optegol, dylech ddangos tystiolaeth o pam nad oes yn rhaid i chi dalu neu pam y cewch ddefnyddio taleb. Er enghraifft, eich llyfr budd-daliadau, tystysgrif eni neu dystysgrif eithrio'r GIG; i gael rhagor o wybodaeth am hyn – darllenwch y tablau sydd ar dudalennau 38-43.

Os na allwch gyflwyno tystiolaeth, bydd rhaid i chi ddweud pan nad oes rhaid i chi dalu (neu y gallwch gael taleb optegol) ac fe gewch eich triniaeth GIG am ddim, neu byddwch yn gallu defnyddio'ch taleb optegol. Ond caiff eich ffurflen driniaeth ei marcio fel 'no evidence seen' fel y gellir gwirio'ch hawl yn nes ymlaen. Ni fyddwch yn gallu cael cymorth rhannol oni bai eich bod yn dangos eich HC3W.

Os nad ydych yn siŵr a oes gennych hawl i gael help gyda chostau iechyd yna rhaid i chi dalu. Gallwch hawlio ad-daliad, gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw'r holl dderbynebau (gweler tudalen 35-37).

BYDD CEISIADAU AM Y CANLYNOL YN CAEL EU GWIRIO:

- Cymorth llawn neu rannol gyda thriniaeth ddeintyddol y GIG. Bydd y profion gwirio yn cael eu cynnal gan yr NHS BSA;
- Profion golwg y GIG yn rhad ac am ddim a thalebau tuag at gost sbectol neu lensys cyffwrdd. Bydd y profion gwirio yn cael eu cynnal gan y GIG Cymru Partneriaeth Cydwasanaethau ar ran eich Bwrdd Iechyd Lleol.

Cyngor Pellach

Y GOSB

Bydd unrhyw glaf y cafwyd ei fod wedi gwneud cais yn amhriodol am gymorth gyda chostau iechyd yn wynebu cosb ac, mewn rhai achosion, erlyniad o dan bwerau a gyflwynwyd gan Ddeddf Iechyd 1999.

Dirwy sifil yw'r gosb a gellir dirwyo pan ganfyddir bod claf wedi bod yn hawlio cymorth llwyr neu gymorth rhannol gyda chostau iechyd. Pum gwaith yr arian sy'n daladwy, hyd at uchafswm o £100 yw'r ddirwy. Mae hyn yn ogystal â'r gost wreiddiol. Bydd taliad yn cael ei geisio gan adferiad sifil os bydd angen.

AD-DALIADAU

Bydd arnoch angen derbynneb sy'n dangos eich bod wedi talu am driniaeth y GIG (gweler y paragraffau canlynod am fanylion). Yn achos hawliadau sy'n seiliedig ar incwm, defnyddiwch ffurflen HC5W(T) am gostau teithio, HC5W(O) am daliadau optegol, neu HC5W(D) am daliadau deintyddol. Mae'r rhain ar gael drwy alw 0345 603 1108. Mae'r HC5W(T, O neu D) yn dweud wrthy ch beth i'w wneud. Bydd angen i chi ysgrifennu llythyr (gan amgáu'r dderbynneb) i wneud cais am ad-daliad am resymau eraill. Mae rhaid i chi hawlio ad-daliad cyn pen tri mis ar ôl talu'r gost iechyd.

AD-DALU COST TRINIAETHAU DEINTYDDOL Y GIG

Gofynnwch i'ch deintydd am ffurflen dderbynneb y GIG neu dderbynneb sy'n dangos y gost a'r dyddiad y talwyd y swm.

Os ydych yn gwneud cais ar sail incwm isel, llenwch ffurflen HC5W(D).

Os ydych eisiau hawlio ad-daliad o ganlyniad i reswm arall e.e. i gadarnhau eich bod yn feichiog, bydd yn rhaid i chi egluro pam rydych yn gwneud cais am ad-daliad. Dylech amgáu eich derbynneb a sicrhau eich bod yn cynnwys eich enw llawn a chyfeiriad eich deintydd ac ysgrifennu at eich Bwrdd Iechyd Lleol.

Cyngor Pellach

AD-DALU COST PRAWF GOLWG

Gofynnwch i'r sawl sy'n rhoi'r prawf golwg i chi am dderbynneb sy'n dangos eich bod wedi talu am y prawf a dyddiad y taliad. Cwblhewch ffurflen ad-dalu HC5W(O) gan sicrhau eich bod yn nodi dyddiad eich prawf golwg arno. Fe ddywed yr HC5W(O) wrthy ch beth i'w wneud nesaf.

Ad-dalu cost sbectol neu lensys cyffwrdd

Os ydych eisoes wedi defnyddio taleb tuag at gost eich sbectol neu eich lensys cyffwrdd, ni allwch gael ad-daliad oni bai ei bod yn daleb "lens cymhleth" yn unig. Ni allwch ychwaith hawlio ad-daliad o'r gwahaniaeth rhwng gwerth y daleb a chost wirioneddol y sbectol neu'r lensys, hyd yn oed os oedd eu gwerth yn fwy na gwerth y daleb.

Os hoffech wneud cais am ad-daliad, gofynnwch i'r sawl sy'n darparu eich sbectol neu eich lensys cyffwrdd roi derbynneb i chi sy'n dangos faint a dalwyd gennych a dyddiad y taliad. Cwblhewch ffurflen ad-daliad HC5W(O) a sicrhewch eich bod yn amgáu eich presgripsiwn optegol a'ch derbynneb gyda'ch HC5W(O) pan fyddwch yn ei anfon. Mae'r ffurflen yn dweud wrthy ch beth i'w wneud. Yr ad-daliad mwyaf y gallwch ei gael fydd gwerth y daleb sy'n cyd-fynd â'ch presgripsiwn.

Sbectol neu lensys cyffwrdd wedi'u colli neu eu difrodi

Os ydych wedi colli neu ddifrodi eich sbectol neu eich lensys cyffwrdd ac yn talu am rai newydd neu i gael eu hatgyweirio, dim ond os oes gennych hawl i gael taleb y cewch eich ystyried am ad-daliad. Ond mae'n rhaid i'ch Bwrdd Iechyd Lleol gytuno bod y golled neu'r difrod wedi digwydd o ganlyniad i salwch cyn y gellir gwneud taliad – darllenwch dudalen 24.

Cyngor Pellach

AD-DALU COSTAU TEITHIO I'R YSBYTY AC ODDI YNO AM DRINIAETH Y GIG

Fel arfer, bydd ysbyty'r GIG yn rhoi ad-daliad i chi pan ewch i gael triniaeth. Os nad yw hyn yn bosibl, gofynnwch i'r ysbyty am ffurflen hawlio ad-daliad HC5W(T) – fe ddywed y ffurflen wrthych beth i'w wneud.

RHAGOR O WYBODAETH

LLINELLAU CYNGOR COSTAU IECHYD

Tystysgrifau eithrio Meddygol a Mamolaeth

Cysylltwch â'ch Bwrdd Iechyd Lleol.

Tystysgrifau Eithrio Credyd Treth y GIG

(Byddwch â'ch hysbysiad dyfarnu credyd treth yn barod i ateb cwestiynau): 0300 330 1347

Nid yw'n ymdrin ag ymholiadau am geisiadau am greddyd treth nac am hawl i hysbysiad dyfarnu.

LLINELLAU CYNGOR ERAILL

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi – llinell gymorth Credydau Treth

Ar gyfer ymholiadau am geisiadau neu gymhwyster i gael Hysbysiadau Dyfarnu Credyd Treth:

Cymru, Lloegr a'r Alban: 0345 300 3900

Ar gyfer pobl sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd:

Cymru, Lloegr a'r Alban: 0345 300 3909

CYNGOR ARALL AR IECHYD

Gwasanaethau sy'n darparu cyngor a gwybodaeth iechyd sy'n gyfrinachol gan nys 24 awr y dydd:

Galw Iechyd Cymru: 0845 46 47

Nodwch: Nid yw Galw Iechyd Cymru yn delio ag ymholiadau credyd treth.

I bobl sydd â hawl i gael cymorth gyda chost triniaeth ddeintyddol y GIG – tystiolaeth o’ch hawl

<p>Mae gennych hawl i driniaeth ddeintyddol y GIG yn rhad ac am ddim os ydych:</p>	<p>Y dystiolaeth y mae angen i chi ei chael</p>	<p>Ymhle a sut i ddod o hyd i’r dystiolaeth</p>
<p>O dan 18 oed</p>	<p>Unrhyw ddogfen swyddogol sy’n dangos eich enw a’ch dyddiad geni megis eich cerdyn meddygol y GIG, tystysgrif eni, trwydded yrŵ, cerdyn consesiynau teithio, neu lyfr archebion Budd-daliadau Plant.</p>	<p>Fel arfer, rhoddir cardiau meddygol y GIG pan gaiff plentyn ei gofrestru fel claf gyda meddyg teulu am y tro cyntaf. Os oes arnoch angen cerdyn newydd, cysylltwch â’ch Bwrdd Iechyd Lleol.</p>
<p>Yn 18 oed ac mewn addysg llawn amser</p>	<p>Llyfr archebion Budd-daliadau Plant cyfredol, neu dystiolaeth o oedran fel y nodir uchod a llythyr neu ddogfen arall o’ch ysgol, coleg neu brifysgol yn nodi eich bod yn fyfyrwr llawn amser.</p>	<p>Llinell gymorth Budd-daliadau Plant ar 0300 200 3100. Gall eich ysgol, coleg, prifysgol neu eich awdurdod addysg lleol roi tystiolaeth eich bod mewn addysg llawn amser.</p>
<p>Yn feichiog</p>	<p>Tystysgrif MatB1, neu dystysgrif eithrio mamolaeth presgripsiynau’r GIG.</p>	<p>Gall meddyg teulu neu fydwraig gofrestrddig ddarparu tystysgrif MatB1.</p>
<p>Wedi cael babi yn ystod y 12 mis blaenorol, neu wedi cael babi marw-anedig yn ystod y 12 mis blaenorol</p>	<p>Hysbysiad eich bod wedi rhoi genedigaeath, tystysgrif eni neu dystysgrif yn nodi’r farw-enedigaeth.</p>	<p>Er mwyn cael tystysgrif eithrio mamolaeth, cysylltwch â’ch meddyg teulu, meddyg eich ysbyty neu’ch bydwraig am ffurflen gais FW8W. Fe ddywed y ffurflen wrthyhych beth i’w wneud. Bydd y fydwraig sy’n eich helpu i roi genedigaeath yn rhoi ffurflen sy’n hysbysiad o’r enedigaeath.</p>

		<p>Dosberthir tystysgrifau geni a thystysgrifau marw-enedigaethau gan eich cofrestrdydd genedigaethau, marwolaethau a phriodasau lleol.</p>
<p>Wedi'ch enwi ar dystysgrif HC2W ddilys</p>	<p>Tystysgrif HC2W y GIG am gymorth llawn gyda chostau iechyd.</p>	<p>Gwnewch gais ar y ffurflen HC1W sydd ar gael gan eich Canolfan Byd Gwaith neu drwy ffonio 0345 603 1108.</p>
<p>Wedi'ch enwi ar dystysgrif HC3W ddilys</p>	<p>Gellir lleihau'r gost os yw eich enw ar dystysgrif HC3W y GIG am gymorth rhannol gyda chostau iechyd.</p>	
<p>Chi neu eich partner yn cael Ategiad Incwm</p>	<p>Eich llyfr archebion Cymhorthdal Incwm neu lythyr yn nodi eich cymhwyster gan eich Canolfan Byd Gwaith.</p>	<p>Rhaid i chi hawlio eich budd-dal yn eich Canolfan Byd Gwaith (bydd y cyfeiriad yn eich llyfr ffôn lleol).</p>
<p>Chi neu eich partner yn cael Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm</p>	<p>Llythyr yn nodi eich cymhwyster gan eich Canolfan Byd Gwaith.</p>	<p>Os caiff taliadau eu gwneud i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, cewch dystiolaeth ar ffurf llythyr cymhwyster gan eich Canolfan Byd Gwaith.</p>
<p>Chi neu eich partner yn cael credyd gwarant y Credyd Pensiwn</p>	<p>Eich Llyfr Archebion neu lythyr yn nodi eich cymhwyster gan eich Canolfan Byd Gwaith.</p>	
<p>Neu, eich partner yn cael Credyd Cynhwysol</p>	<p>Ffurflen yn nodi eich cymhwyster gan eich Canolfan Byd Gwaith.</p>	

I bobl sydd â hawl i gael help gyda chost gwasanaethau optegol y GIG – tystiolaeth o'ch hawl

<p>Mae gennych hawl i driniaeth ddeintyddol y GIG yn rhad ac am ddim os ydych:</p>	<p>Y dystiolaeth y mae angen i chi ei chael</p>	<p>Ymhle a sut i ddod o hyd i'r dystiolaeth</p>
<p>Chi neu eich partner yn cael credydau treth ac yn bodloni'r amodau cymhwyso</p>	<p>Bod gennych chi hawl i gael tystysgrif eithrio credyd treth y GIG neu fod eich enw ar dystiolaeth o'r fath.</p>	<p>Os ydych yn gymwys i gael triniaeth yn rhad ac am ddim, caiff eich tystysgrif ei hanfon atoch. Ewch i dudalen 15 os nad ydych wedi derbyn y dystysgrif honno eto.</p>
<p>Mae gennych hawl i broffion golwg yn rhad ac am ddim os ydych:</p>	<p>Y dystiolaeth y mae angen i chi ei chael</p>	<p>Ymhle a sut i ddod o hyd i'r dystiolaeth</p>
<p>Yn 60 oed a throsodd</p>	<p>Unrhyw ddogfen swyddogol sy'n dangos eich enw a'ch dyddiad geni megis tystysgrif eni, cerdyn meddygol y GIG, pasbort, cerdyn consesyngau teithio, trwydded yrnu.</p>	<p>Er mwyn cael cerdyn meddygol y GIG newydd, dylech gysylltu â'ch Bwrdd Iechyd Lleol.</p>
<p>Yn 40 oed a throsodd ac yn rhiant, yn frawd, yn chwaer, yn fab neu'n ferch i rywun sy'n dioddef o glawcoma</p>	<p>Dogfen swyddogol i brofi eich dyddiad geni - gweler uchod.</p>	<p>Cerdyn meddygol y GIG - gweler uchod.</p>
<p>Wedi'ch cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall</p>	<p>Tystysgrif i'ch cofrestru yn ddall neu'n rhannol ddall.</p>	<p>Cysylltwch â'ch awdurdod lleol.</p>

<p>Yn dioddef o diabetes</p>	<p>Cerdyn ambresgripsiwn, cerdyn apwyntiadau clefion allanol, cofnod o ddarlleniadau lefel siwgr y gwaed.</p>	<p>Eich meddyg teulu neu eich clinig llygaid neu diabetes yn yr ysbyty. Dylai eich cerdyn ambresgripsiwn neu eich cerdyn claf allanol ddangos eich bod yn mynychu clinig diabetes yn rheolaidd.</p>
<p>Yn dioddef o glawcoma</p>	<p>Datganiad eich bod yn dioddef o glawcoma.</p>	<p>Eich meddyg teulu neu glinig llygaid eich ysbyty.</p>
<p>Mewn perygl o ddatblygu glawcoma</p>	<p>Datganiad eich bod mewn perygl o ddatblygu glawcoma</p>	<p>Eich meddyg teulu neu glinig llygaid eich ysbyty.</p>
<p>Cewch brawf golwg y GIG yn rhad ac am ddim a thaleb optegol os ydych:</p>		<p>Ymhle a sut i ddod o hyd i'r dystiolaeth</p>
<p>O dan 16 oed</p>	<p>Llyfr Archebion Budd-daliadau Plant, cerdyn meddygol y GIG, pasbort, tystysgrif eni, cerdyn consesiynau teithio, yn dangos eich enw a'ch dyddiad geni.</p>	<p>Linell gymorth Budd-daliadau Plant ar 0300 200 3100. Cerdyn meddygol y GIG - gweler uchod.</p>

I bobl sydd â hawl i gael help gyda chost gwasanaethau optegol y GIG – tystiolaeth o'ch hawl

Cewch brawf golwg y GIG yn rhad ac am ddim a thaleb optegol os ydych:	Y dystiolaeth y mae angen i chi ei chael	Ymhle a sut i ddod o hyd i'r dystiolaeth
Yn 16, 17 neu'n 18 oed ac mewn addysg amser llawn	Llyfr Archebion Budd-daliadau Plant cyfredol, neu dystiolaeth o oedran fel y nodir uchod a llythyr neu ddogfen arall gan eich ysgol, coleg, prifysgol yn nodi eich bod yn fyfyrwr llawn amser.	Linell gymorth Budd-daliadau Plant ar 0300 200 3100. Gall eich ysgol, coleg, prifysgol neu eich awlurdod addysg lleol roi tystiolaeth eich bod mewn addysg llawn amser sy'n gymwys.
Chi neu eich partner yn cael Cymhorthdal Incwm	Eich Llyfr Archebion Cymhorthdal Incwm, neu llythyr cymhwyster gan y Ganolfan Byd Gwaith.	Rhaid i chi hawlio eich budd-dal yn eich Canolfan Byd Gwaith (bydd y cyfeiriad yn eich llyfr ffôn lleol).
Chi neu eich partner yn cael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm Neu, eich partner yn cael Credyd Cynhwysol Chi neu eich partner yn cael Gwarant Isafswm Incwm neu gredyd gwarant y Credyd Pensiwn	Llythyr yn nodi cymhwyster gan y Ganolfan Byd Gwaith. Llythyr yn nodi cymhwyster gan y Ganolfan Byd Gwaith. Eich llyfr archebion, neu llythyr yn nodi cymhwyster gan y Ganolfan Byd Gwaith.	Os caiff taliadau eu gwneud i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, cewch dystiolaeth ar ffurf llythyr cymhwyster gan eich Canolfan Byd Gwaith.

<p>Chi neu eich partner yn cael credydau treth ac yn bodloni'r amodau cymhwyso</p> <p>Wedi'ch enwi ar dystysgrif HC2W ddilys</p> <p>Wedi'ch enwi ar dystysgrif HC3W ddilys</p>	<p>Bod gennych hawl i gael dystysgrif eithrio credyd treth y GIG neu fod eich enw ar dystysgrif o'r fath.</p> <p>Tystysgrif HC2W y GIG am gymorth llawn gyda chostau iechyd.</p> <p>Hwyrach y cewch help os yw eich enw ar dystysgrif HC3W y GIG am gymorth rhannol gyda chostau iechyd.</p>	<p>Os ydych yn gymwys i gael triniaeth yn rhad ac am ddim, caiff eich dystysgrif ei hanfon atoch. Ewch i dudalen 15 os nad ydych wedi derbyn y dystysgrif honno eto.</p> <p>Gwnewch gais gan ddefnyddio ffurflen HC1W sydd ar gael drwy ffonio 0345 603 1108.</p>
--	--	---

Mwy o Wybodaeth

Mae'r llyfrynau a'r ffurflenni a restrir isod ar gael drwy ffonio
0345 603 1108

- HC1W Cais am help gyda chostau iechyd.
- HC1(SC) W Cais am Help gyda Chostau Iechyd (amodau arbennig).
- HC5W Ffurflen gais am ad-daliad.
- HC11W (y daflen hon).
- Rheoli eich Meddyginiaethau.
- Adolygiad o'r Defnydd o Feddyginiaethau: Deall eich meddyginiaethau.

Mae rhagor o wybodaeth am daliadau y GIG a chymorth gyda chostau iechyd ar gael yn: **www.healthcosts.wales.nhs.uk**